Love Learning for Life
Caru Dysgu am Oes

Corff Llywodraethol
Ysgol Gynradd dan Gymorth Wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru Sant y Brîd
Heol yr Ysgol
Sant y Brîd
Bro Morgannwg
CF32 0TB

Rhoddir rhybudd yn unol ag Adran 42 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013, a'r Côd Trefniadaeth Ysgolion bod y Corff Llywodraethu, wedi ymgynghori â'r bobl hynny sy'n ofynnol, yn bwriadu gwneud newid rheoleiddiedig i Ysgol Gynradd dan Gymorth Wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru Sant y Brîd, Heol yr Ysgol, Sant y Brîd, Bro Morgannwg CF32 0TB, drwy ymestyn ystod oedran yr ysgol o 4-11oed i 3-11 oed. Cynigir sefydlu uned feithrin gymysg ran-amser ar gyfer 48 o ddisgyblion. Bydd hyn yn caniatáu i 48 o blant rhwng 3 a 4 oed gael addysg feithrin ran-amser yn yr ysgol o'r tymor sy'n dilyn eu trydydd pen-blwydd.

Cynhelir yr ysgol gan Gyngor Bro Morgannwg ac Esgobaeth Llandaf.

Bu'r Corff Llywodraethol yn ymgynghori am ychydig amser cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Cewch weld adroddiad ymgynghori sy'n crynhoi'r materion a gododd y rhai yr ymgynghorwyd â hwy, a hefyd ymatebion y cynigydd a barn Estyn drwy fynd i www.stbridesprimary.org.uk

Cynigir gweithredu'r cynnig ar **3 Ionawr 2017.**

Bydd yr ysgol yn aros o dan gymorth wirfoddol ac yn parhau i dderbyn bechgyn a merched.

Cyngor Bro Morgannwg fydd yr awdurdod derbyn. 30 o ddisgyblion 4/5 oed a fydd yn cael eu derbyn i'r dosbarth derbyn yn ystod blwyddyn ysgol gyntaf gweithredu'r cynnig i agor y feithrinfa. 48 o ddisgyblion meithrin rhan-amser fydd yn cael eu derbyn i'r ysgol yn ystod blwyddyn ysgol gyntaf gweithredu'r cynnig i agor y feithrinfa.Nid yw'r trefniadau derbyn yn darparu ar gyfer dewis disgyblion yn ôl gallu (h.y. ni ddefnyddir system 'cylchu').

Bydd lle ar gyfer 210 o ddisgyblion yn yr ysgol.Bydd yr ysgol yn darparu ar gyfer 48 o ddisgyblion meithrin a 210 o ddisgyblion cynradd.

Yn ôl trefniadau teithio Dysgwyr Cymru Gyfan, y mae plentyn yn gymwys i ddefnyddio trafnidiaeth yr ysgol os yw'n ddisgybl cynradd, wedi cyrraedd oedran ysgol statudol ac yn byw'n fwy na dwy filltir o'i ysgol ddalgylch neu'r ysgol ddalgylch a ddynodwyd ar ei gyfer.

Ni fydd y cynnig hwn yn effeithio o gwbl ar drefniadau ar gyfer cludo disgyblion nac ar eu hawl na'u gallu i fanteisio ar drafnidiaeth ysgol.

O fewn cyfnod o 28 niwrnod o'r dyddiad y cyhoeddwyd y cynigion hyn, sef 29 Chwefror 2016, y caiff unrhyw un wrthwynebu'r cynigion.

Dylid anfon gwrthwynebiadau at Ann Jenkins, Cadeirydd y Llywodraethwyr, un ai drwy lythyr i gyfeiriad yr ysgol uchod ynteu neges i StBridesPS@valeofglamorgan.gov.uk

Bydd y Corff Llywodraethol yn cyhoeddi crynodeb o'r holl wrthwynebiadau (nas tynnwyd yn ôl drwy lythyr) a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, ynghyd â'i sylwadau, cyn pen 28 niwrnod ar ôl diwedd y cyfnod hwnnw.

Llofnod ..... Ann Jenkins, ar ran y corff llywodraethol.

Dyddiad: 1 Chwefror 2016

NODYN O EGLURHAD – nad yw'n rhan o'r hysbysiad statudol

Cynigir ymestyn ystod oedran Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sant y Brîd o 4-11 oed i 3-11 oed drwy ychwanegu meithrinfa a fydd yn darparu 48 o leoedd meithrin rhan-amser (cyfwerth rhan-amser).

Bydd uned feithrin ar wahân yn cael ei sefydlu yn yr ysgol a bydd llwybr yn cysylltu'r uned newydd honno ag adeiladau presennol yr ysgol.

Bydd y feithrinfa'n caniatáu i gynifer â 48 o blant rhwng 3 a 4 oed gael addysg feithrin ran-amser yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sant y Brîd o'r tymor sy'n dilyn eu pen-blwydd yn dair oed hyd nes iddynt gychwyn yn y dosbarth derbyn.

Y Cyngor yw'r awdurdod derbyn ar gyfer yr ysgol. Bydd yr ysgol yn darparu lle ar gyfer 48 o blant meithrin a 30 o blant cynradd. Caiff rhieni weld y meini prawf ar gyfer derbyn plant i ysgolion meithrin a chynradd yn y Canllawiau i Rieni ar gyfer Derbyn Plant i Ysgolion Bro Morgannwg sydd yn llyfryn y Fro.

Ni fydd plant sy'n mynychu'r feithrinfa'n cael eu derbyn i ddosbarth derbyn yr ysgol fel mater o arfer.Ni fydd hawl ddiymwad i unrhyw blentyn aros yn yr un ysgol am iddo fynychu'r dosbarth meithrin, boed ei gartref yn y dalgylch ai peidio. Pan fydd mwy o geisiadau nag y medr y dosbarth derbyn ddarparu ar eu cyfer, bydd y Cyngor yn dilyn ei feini prawf pwrpasol sy'n pennu y dylid rhoi blaenoriaeth i blant sy'n byw yn nalgylch yr ysgol.

Petai'r corff llywodraethol yn derbyn gwrthwynebiadau i'r cynnig yn ystod cyfnod yr Hysbysiad Statudol byddai'r awdurdod lleol yn gyfrifol am benderfynu'n derfynol ynglŷn â'r cynnig.

Llofnod

Mr Duncan Mottram
Prifathro
Ysgol Gynradd Sant y Brîd

Llofnod

Mrs Ann Jenkins
Cadeirydd y Llywodreathwyr
Ysgol Gynradd Sant y Brîd